# Cronfa Datblygu Gallu Arloesi 2019-20

## Effaith ar Dwf Economaidd: templed ar gyfer astudiaethau achos

| | |
|---|---|
| **Sefydliad:** | Prifysgol Aberystwyth |
| **Elfen o strategaeth CAYC a gefnogir (dewiswch o'r gwymplen):** | Cross cutting |
| **Gweledigaeth ar gyfer Elfennau Ymchwil ac Arloesi (dewiswch bob un sy'n berthnasol):** | ☑ Rhagoriaeth<br>☑ Lle<br>☑ Arloesi<br>☑ Cydweithredu |
| **Teitl yr astudiaeth achos / prosiect / menter:** | GRRaIN (Rhwydwaith Twf, Gwydnwch Gwledig ac Arloesi): Cefnogi twf busnes a gwydnwch ar draws y Canolbarth |

**Disgrifiad cryno**

Drwy gefnogaeth cyllid yn gysylltiedig â Strategaeth CAYC PA, sefydlwyd GRRaIN yn 2020 i goladu gweithgareddau mentrau gwledig o Ysgol Busnes Aberystwyth, ArloesiAber, Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) Dysgu o Bell a'r Gwasanaeth Gyrfaoedd (yn cyflenwi cymorth Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid ar ran Llywodraeth Cymru). Darparu llwyfan a strategaeth ar gyfer hyrwyddo cyswllt busnes a'r cyhoedd ag ymchwil a gweithgareddau menter gwledig PA.

Yn wahanol i hybiau entrepreneuriaeth generig, mae GRRaIN Aberystwyth yn nodedig am ei fod yn darparu ar gyfer mentrau ac ymchwil yng nghefn gwlad ac sy'n canolbwyntio ar gefn gwlad, a mentrau newydd myfyrwyr, graddedigion a staff. Nod GRRaIN yw cefnogi mentrau newydd a busnesau gwledig, ymwneud â Rhwydweithiau Busnes lleol/rhanbarthol, helpu i gynnal a sefydlu rhwydweithiau newydd, a gwella twf a gwydnwch economaidd busnes ar draws y canolbarth a'r tu hwnt. Bydd yn gwneud hyn drwy hwyluso cyfnewid gwybodaeth a chydweithio rhwng PA a sefydliadau a busnesau gwledig, yng Nghymru a thu hwnt.

**Effaith y prosiect / menter:**

Gyda sefydlu GRRaIN yn 2020, sefydlwyd grŵp cynghorol mewnol, recriwtiwyd gweinyddydd a chrëwyd gwefan a phresenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol.
Comisiynwyd ymchwilwyr PA gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys a Heddlu Cymru i ddatblygu arolwg trosedd gwledig i Gymru. Bydd yr arolwg, a drefnwyd ar gyfer mis Tachwedd 2021, yn ymgysylltu ag unigolion a sefydliadau ledled

| |
|---|
| Cymru, ac yn helpu i lywio adnoddau a strategaethau'r heddlu. Hefyd noddodd GRRaIN wobr menter wledig o £500 yn y gystadleuaeth InvEnterPrize flynyddol, a drefnwyd gan Wasanaeth Gyrfaoedd PA gyda chefnogaeth Syniadau Mawr Cymru. Mae'r enillwyr, Ride Dyfi, wedi cymryd camau breision gyda'u busnes i gefnogi twristiaeth beicio mynydd yng ngogledd ddwyrain Cymru, ac yn bwriadu ehangu ledled y DU, ac yn fyd-eang. Bu PA hefyd yn cydweithio gydag wyth prifysgol partner ar gais BBSRC am £829651.20 ar gyfer Canolfan Arloesi Genedlaethol ar gyfer Menter Wledig yn canolbwyntio ar Ddynodiadau Daearyddol o Darddiad neu Enwau Bwyd Gwarchodedig a chyfnewid gwybodaeth yn y sector bwyd. Er na fu'n llwyddiannus, gosodwyd sylfaen ar gyfer cydweithio a cheisiadau yn y dyfodol.<br><br>Bydd GRRaIN yn sefydlu perthnasoedd gyda sefydliadau ar draws Cymru, a'r DU, gan gynnwys Menter a Busnes, y Ganolfan Arloesi Genedlaethol ar gyfer Mentro Gwledig (NICER) yn Lloegr, Coleg Prifysgol Brenhinol yr Alban (SRUC), yr Heddlu, Undeb Ffermwyr Cymru (FUW) ac Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr (NFU). |
| **Gweithgaredd y Dyfodol**<br><br>Gyda chefnogaeth cyllid pellach gan CAYC yn 2021/22, rhagwelir y daw cyllid yn y dyfodol fel rhan o Hyb Dyfodol Gwledig PA. Nod digwyddiad lansio GRRaIN, a gynllunnir ar gyfer mis Hydref 2021, yw cynnwys Undebau Ffermio, Llywodraeth Cymru, Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru a Hybu Cig Cymru. Bydd GRRaIN yn hwyluso cyfnewid gwybodaeth, cydweithio ac arloesi ar gyfer entrepreneuriaeth wledig yng Nghymru a thu hwnt.<br>• Arddangos ymchwil PA gan gynnwys ymchwil y Ganolfan Menter Leol a Rhanbarthol (CLARE) a'r Ganolfan Cymdeithasau Cyfrifol (CRiSis). Bydd 'PGcert in Change Leadership' a ddarperir trwy Menter a Busnes hefyd yn elwa o rwydweithiau GRRaIN.<br>• Hyrwyddo ymgysylltu pellach gydag ArloesiAber, buddsoddiad o £40.5m mewn cyfleusterau ymchwil trosiadol i gefnogi cwmnïau i gydweithio gydag arbenigwyr academaidd i ddatblygu cynhyrchion a gwasanaethau arloesol yn y gwyddorau Amaethyddol.<br>• Datblygu hyfforddiant, briffiadau technegol a chyfnewid gwybodaeth ar gyfer canfyddiadau ymchwil ac anghenion busnes.<br>• Hefyd cefnogi'r rheini sy'n sefydlu busnesau a mentrau cymdeithasol newydd gwledig a seiliedig yng nghefn gwlad. |

| **Dyfyniadau e.e. gan bartneriaid busnes allanol, graddedigion / myfyrwyr**<br><br>“Rwy’n edrych ymlaen at weithio gyda Phrifysgol Aberystwyth i gynhyrchu Arolwg Troseddau Gwledig a Bywyd Gwyllt cyntaf Cymru. Mae’n hanfodol bwysig ein bod yn gallu gwrando ar y cyhoedd yng Nghymru a’r hyn sy’n cael effaith ac sy’n bwysig iddyn nhw. Bydd yr arolwg yn … helpu i wella’r plismona gwledig maen nhw [y cyhoedd] yn ei haeddu yma yng Nghymru.” (**Rob Taylor** QPM, Cydlynydd Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru, Uned Cyswllt yr Heddlu, Llywodraeth Cymru, 21 Medi 2021) | |
|---|---|
| **Cysylltiadau:**<br>**(gwefan; enw cyswllt; cyfeiriad e-bost; rhif ffôn)** | Wyn Morris<br>dmm@aber.ac.uk<br>01970 622513 |

| **Sut wnaeth y gweithgarwch helpu i gefnogi nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (dewiswch bob un sy’n berthnasol):** | ☑ Cymru lewyrchus<br>☑ Cymru gydnerth<br>☑ Cymru iachach<br>☑ Cymru sy’n fwy cyfartal<br>☑ Cymru o gymunedau cydlynus<br>☑ Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu<br>☑ Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|
| [Nodwch yn gryno sut yr helpodd y prosiect i gefnogi nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015]<br><br>Mae GRRaIN yn cydweddu â’r Ddeddf Llesiant ac yn cyfrannu at ei nodau drwy gefnogi gwydnwch a datblygu cynaliadwy, fel y nodir yn y Ddeddf, ar gyfer mentrau gwledig, drwy gefnogi mentrau newydd a busnesau gwledig fydd yn cefnogi ac yn cynyddu twf economaidd, gwydnwch a llewyrch yng Nghymru ac ar yr un pryd yn cefnogi llesiant cymunedau gwledig. Mae GRRaIN yn cyflawni’r nodau uchod:<br>**Cymru lewyrchus** – drwy gefnogi datblygiad gweithgareddau entrepreneuraidd mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru nod GRRaIN yw cefnogi twf economaidd a Chymru lewyrchus<br>**Cymru gydnerth** – drwy gefnogi gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth a datblygu strategaethau arloesol a datrysiadau ymarferol gan fusnesau gwledig a seiliedig yng nghefn gwlad, bydd GRRaIN yn helpu i greu a chefnogi Cymru gydnerth | |

| |
|---|
| **Cymru iachach** – bydd cefnogi datblygiad, gwydnwch a thwf mentrau gwledig yn cefnogi iechyd a llesiant cymunedau yng Nghymru<br>**Cymru sy'n fwy cyfartal** – drwy helpu i gefnogi mentrau gwledig bydd GRRaIN yn ymdrin ag un o'r heriau allweddol sy'n wynebu cymunedau gwledig dan Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru, 2020-204, fydd yn cefnogi datblygu Cymru sy'n fwy cyfartal<br>**Cymru o gymunedau cydlynus** - bydd cefnogi mentrau gwledig a'u gwydnwch a'u twf economaidd hefyd yn helpu i gefnogi creu cymunedau cydlynus.<br>**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** - bydd cefnogi mentrau gwledig Cymru yn y ddwy iaith yn helpu i gefnogi a hyrwyddo Cymru sydd â diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg lewyrchus<br>**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** – bydd GRRaIN yn cyfrannu at wydnwch, cynaladwyedd, twf a llesiant ar draws Cymru a'r tu hwnt, gan gynnwys yn fyd-eang. |